

“A llanwyd hwy oll â'r Ysbryd Glân”

Ysbryd



Cymun Bendigaid ar Gân

Y Sulgwyn

5 Mehefin 2022 am 9.15am




Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



Croeso i Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.



Rydych chi'n sefyll rwan
lle safodd Deiniol bron i
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn
525, bu iddo gynnwll o'i
gwmpas gymuned lawn
ffydd, gobaith a chariad,
gan godi o'i chwmpas
ffens gyll—y **bangor**
gwreiddiol—iddi'n gysgod
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch
chwithau, hefyd, eich
cofleidio yma gan yr un
ffydd, gobaith a chariad
a gyhoeddir gennym
heddiw ac sy'n ein
cyfareddu o hyd.

Yn Cymun hwn...

Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd â
Christ mewn bara a gwin, ei Gorff a'i
Waed ef gyda ni.

1 Wrth inni ymgynnull, byddwn
yn paratoi ein hunain i gwrdd â
Christ trwy gyffesu ein pechodau
— y ffyrdd yr ydym wedi galaru Duw
yn ein bywydau — ac yn derbyn
gollyngdod, sef sicrwydd o faddeuant
Duw.

2 Yna rydyn ni'n gwrando ar
ddarlleniadau o'r Beibl, gan
ganfod yno arweiniad, her,
cysur a newydd da gan Dduw.
Ymatebwn trwy gyhoeddi ein ffydd
yn y Drindod Sanctaidd a chynnig i
Dduw ein gweddi dros bawb mewn
angen.

3 Yn galon i'n haddoliad heddiw,
byddwn yn cymryd bara a gwin,
byddwn yn gofyn am fendith
gweddnewidiol Duw arnynt, yn torri'r
bara, ac — fel aelodau o Gorff toredig,
trwsiedig Crist — byddwn yn Cymuno.

4 Daw ein haddoliad i ben wrth
inni dderbyn bendith Duw, yn
gynhaliaeth inni wrth ymadael.

Waeth pa mor bell yn ôl y
gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae
croeso i chi Gymuno yma heddiw. Os
hoffech chi Gymuno am y tro cyntaf,
neu gael eich Bedyddio, siaradwch ag
aelod o dîm yr Gadeirlan.

Ceir ffydd, gobaith a chariad yma i
bawb.

Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✕. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip gwyrdd**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copïau print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), rhowch wybod i stiward.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Plant a theuluoedd ifanc

Ceir gweithgareddau a chrefftau yn ystod y Cymun Bendigaid ar Gân bob dydd Sul yng Nghapel Mair, ar gyfer unrhyw blant hyd at 11 oed. Mae'r crefftau a'r gweithgareddau yn amrywiol, gydag o leiaf un yn ymwneud â thema'r Cymun ei hun. Caiff y gofod hwn yn cael ei staffio gan oedolion cyfrifol, a bydd plant dros 5 oed yn gallu mynd a dod. Bydd plant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb eu rhieni neu eu gwarcheidwaid bob amser. Yn y lle cyntaf, dylai plant sy'n 4 oed ac iau fod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad oni bai bod trefniant ymlaen llaw gyda'r rhai ar ddyletswydd wedi'i wneud.

O'r Ddarllenfa a Buchedd Bangor

Pob wythnos, anfonir ebost **O'r Ddarllenfa** at danysgrifwyr gyda hysbysiadau ynghyd â delweddau wythnosol o fywyd y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Os nad ydych chi eisoes yn danysgrifiwr, dilynwch y cod QR, neu ewch i **cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk/Darllenfa/**

Buchedd Bangor yw ein cylchgrawn newydd, gan gynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.

Buchedd Bangor



O'r Ddarllenfa From the Lectern



Trefn y gwasanaeth



Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch



Cynnull

Emyn



Tyrdd, Ysbryd cariad mawr,
ymwêl â llwch y llawr,
a gyr dy nerth yn dân i'm hysbryd egwan;
Ddiddanydd, agosâ,
fy nghalon i cryfha,
a chynnau'r fflam yn hon, dy newydd drigfan.



Dy gwmni, sanctaidd Un,
dry nwydau meidrol ddyn
yn llwch a lludw yn ei danllyd fflamau;
a'th olau nerthol di
fyddo f'arweinydd i
ac ar fy ffordd yn llewyrch mwy i'm llwybrau.

Tywynned haul dy ras
o wyneb-pryd dy was,
a'i darddiad fyddo'r galon iselfrydig,
yr hon a wyla'n lli
dros ei diffygion hi
gan ddwyn ei chroes yn dawel ostyngedig.

Uwch deall dynol-ryw
fo'r hiraeth dwfn am Dduw
a phresenoldeb Ysbryd Crist byth bythoedd:
ei ras ni wŷr un dyn
nes dod yn deml ei hun
lle trig yr Ysbryd Sanctaidd yn oes oesoedd.

Geiriau

Bianco da Siena (c.1350-1399)

Cyfieithiad

Hywel M. Griffiths

Cerddoriaeth | "Down Ampney"

Ralph Vaughan Williams (1872-1958)

Parhawn ar ein traed tan tan ddiwedd y Weddi Gasgl

Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

Amen.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Haleliwia! Atgyfododd Crist.

Atgyfododd yn wir. Haleliwia!

"Llanwyd hwy oll â'r Ysbryd Glân, a dechreusant lefaru â
thafodau dieithr, fel yr oedd yr Ysbryd yn rhoi lleferydd iddynt."

Cyffes

Gan gynnull i ddathlu'r Cymun Bendigaid er gogoniant i Dduw,
ymbaratown gan gyffesu ein pechodau,

ni sydd angen gras dolurus, iachaus Duw i'n gwneud yn gyfan;

ni sydd angen cariad dadlennol, darbwyllo Duw i buro ein
hanghyfiawnder;

ni sydd angen presenoldeb bywiol, gwaredol Duw i drigo ynom
a'n rhyddhau.

Cyd-weddiwn.

**Dad nefol,
yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.**

**Mae'n wir ddrwg gennym,
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.**

**Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,
maddeua inni'r cwbl a aeth heibio**

**ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni.**

Amen.

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthyh,
✠ maddau ichwi a'ch rhyddhau o bechod,
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol.

Amen.

We remain standing

Kyrie eleison

Kyrie eleison. Christe eleison. Kyrie eleison.

Cyfieithiad

Arglwydd trugarha. Crist trugarha. Arglwydd trugarha.

Cerddoriaeth

Cymun Gwynedd, Joe Cooper

We remain standing

Gweddi Gasgl

Gweddiwn.

ODduw, a ddysgaist ar gyfenw i'r amser yma galonnau dy ffyddloniaid trwy anfon iddynt oleuni dy Ysbryd Glân: dyro i ni trwy'r un Ysbryd feddu barn gywir ym mhob peth, a llawenychu byth yn y fath ddiddanwch gwynfydedig; trwy haeddiannau Iesu Grist ein Gwaredwr Dyrchafedig.

Amen.

Eisteddwn



Gair

Salmyddiaeth



☞ Cenwch i Dduw, derynasoedd byd, canmolwch eich Duw, y bobl i gyd.

℞ Cenwch i Dduw, derynasoedd byd, canmolwch eich Duw, y bobl i gyd.

Aethost i fyny i'r uchelder gyda chaethion ar dy ôl, a derbyniaist anrhegion gan bobl, hyd yn oed gwrthryfelwyr, er mwyn i Dduw drigo yno.

Bendigedig yw'r Sanctaidd Un, sy'n ein cario ddydd ar ôl dydd; Duw yw ein hiachawdwriaeth.

℞ Cenwch i Dduw, derynasoedd byd, canmolwch eich Duw, y bobl i gyd.

O Dduw, dangos dy rym, y grym, O Dduw, y buost yn ei weithredu drosom.

℞ Cenwch i Dduw, derynasoedd byd, canmolwch eich Duw, y bobl i gyd.

Canwch i Dduw, deyrnasoedd y ddaear; rhowch foliant i'r Sanctaidd Un,

i'r un sy'n marchogaeth yn y nefoedd, y nefoedd a fu erioed. Clywch! Y mae'n llefaru â'i lais nerthol.

℞ Cenwch i Dduw, derynasoedd byd, canmolwch eich Duw, y bobl i gyd.

Salm 68:18-19, 28, 32-33

Cerddoriaeth

Sam Jones

Darlleniad o Actau'r Apostolion Sanctaidd.

Nawr: Ar ddydd cyflawni cyfnod y Pentecost yr oeddent oll ynghyd yn yr un lle, ac yn sydyn fe ddaeth o'r nef sŵn fel gwynt grymus yn rhuthro, ac fe lanwodd yr holl dy lle'r oeddent yn eistedd. Ymddangosodd iddynt dafodau fel o dân yn ymrannu ac yn eistedd un ar bob un ohonynt; a llanwyd hwy oll â'r Ysbryd Glân, a dechreusant lefaru â thafodau dieithr, fel yr oedd yr Ysbryd yn rhoi lleferydd iddynt. Yr oedd yn preswyllo yng Nghaersalem Iddewon, pobl dduwiol o bob cenedl dan y nef; ac wrth glywed y sŵn hwn fe ymgasglodd tyrfa ohonynt, ac yr oeddent wedi drysu'n lân am fod pob un ohonynt yn eu clywed hwy yn siarad yn eu iaith ei hun. Yr oeddent yn synnu a rhyfeddu, ac meddent, "Onid Galileaid yw'r rhain oll sy'n llefaru? A sut yr ydym ni yn eu clywed bob un ohonom yn ei iaith ei hun? Parthiaid a Mediaid ac Elamitiaid, a thrigolion Mesopotamia, Jwdea a Capadocia, Pontus ac Asia, Phrygia a Pamffylia, yr Aifft a pharthau Libya tua Cyrene, a'r ymwelwyr o Rufain, yn Iddewon a phroselytiaid, Cretiaid ac Arabiaid, yr ydym yn eu clywed hwy yn llefaru yn ein hieithoedd ni am fawrion weithredoedd Duw."

Clywch air bywyd i'n byd.

Diolch a fo i Dduw.

Actau 2:1-11

Caiff Cannwyll y Pasg ei hail-gynnau

Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu Llyfr yr Efengylau yng Nghorff yr Eglwys



Y Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. R Haleliwia. Haleliwia.

Haleliwia. Y Tyrd, Ysbryd Glân, llanw galonnau dy ffyddloniaid a chynnau ynddynt dân dy gariad. R Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Ioan.

Gogoniant i ti, O Grist.

Bryd hynny: Meddai Iesu wrth ei ddisgyblion, "Os ydych yn fy ngharu i, fe gadwch fy ngorchmynion i. Ac fe ofynnaf finnau i'm Tad, ac fe rydd ef i chwi Eiriolwr arall i fod gyda chwi am byth, Ysbryd y Gwirionedd. Ni all y byd ei dderbyn ef, am nad yw'r byd yn ei weld nac yn ei adnabod ef; yr ydych chwi yn ei adnabod, oherwydd gyda chwi y mae'n aros ac ynoch chwi y bydd. Ni adawaf chwi'n amddifad; fe ddof yn ôl atoch chwi. Ymhen ychydig amser, ni bydd y byd yn fy ngweld i ddim mwy, ond byddwch chwi'n fy ngweld, fy mod yn fyw; a byw fyddwch chwithau hefyd. Yn y dydd hwnnw byddwch chwi'n gwybod fy mod i yn fy Nhad, a'ch bod chwi ynof fi, a minnau ynoch chwithau. Pwy bynnag y mae fy ngorchmynion i ganddo, ac sy'n eu cadw hwy, yw'r un sy'n fy ngharu i. A'r un sy'n fy ngharu i, fe'i cerir gan fy Nhad, a byddaf finnau yn ei garu, ac yn f'amlygu fy hun iddo." Meddai Jwdas wrtho (nid Jwdas Iscariot), "Beth sydd wedi digwydd i beri dy fod yn mynd i'th amlygu dy hun i ni, ac nid i'r byd?" Atebodd Iesu ef: "Os yw rhywun yn fy ngharu, bydd yn cadw fy ngair i, a bydd fy Nhad yn ei garu, ac fe ddown ato a gwneud ein trigfa gydag ef. Nid yw'r sawl nad yw'n fy ngharu i yn cadw fy ngeiriau i. A'r gair hwn yr ydych chwi yn ei glywed, nid fy ngair i ydyw, ond gair y Tad a'm hanfonodd i. "Yr wyf wedi dweud hyn wrthyhch tra wyf yn aros gyda chwi. Ond bydd yr Eiriolwr, yr Ysbryd Glân, a anfona'r Tad yn fy enw i, yn dysgu popeth ichwi, ac yn dwyn ar gof ichwi y cwbl a ddywedais i wrthyhch. Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; yr wyf yn rhoi i

chwi fy nhangnefedd i fy hun. Nid fel y mae'r byd yn rhoi yr wyf fi'n rhoi i chwi. Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon, a pheidiwch ag ofni."

Dyma Efengyl ein Gwaredwr.

Moliant i ti, O Grist.

Ioan 14:15-27

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

Pregeth yn y gyfres "Onid oedd ein calonau ar dân ynom?"

"A llanwyd hwy oll â'r Ysbryd Glân" | Ysbryd

Yr Is-Ddeon

Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed

Credo

Ar y cyd, gadewch inni gadarnhau ein ffydd.

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,
a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,
a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,
✠ Dad, Mab ac Ysbryd Glân.
Amen.**

Eisteddwn

Ymbiliau

Gyda'n holl galon a'n holl feddwl gweddiwn ar Dduw.

Eisteddwn neu benliniwn

Defnyddiwn yr ymatebion

Y O Dduw, yn dy drugaredd,
R **Gwrando ein gweddi.**

Y Gorffwys tragwyddol dyro iddynt, O Dduw.
R **A llewyrched goleuni gwastadol arnynt.**
Y ✠ Gorffwysed hwy mewn tangnefedd.
R **A chyfodi mewn gogoniant.**

Y Dad trugarog,
R **Derbyn y gweddiâu hyn**
er mwyn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist.
Amen.

Codwn ar ein traed

Cymun

Emyn



Ysbryd graslon, rho i mi
fod yn raslon fel tydi;
dysg im siarad yn dy iaith,
boed dy ddelw ar fy ngwaith;
gwna i holl addfwynder f'oes
ddweud wrth eraill werth y groes.

Ysbryd geirwir, rho i mi
fod yn eirwir fel tydi;
trwy'r ddoethineb oddi fry
gwna fi'n dirion ac yn gry';
gwna fi'n frawd i'r gwan a'r trist
er mwyn dangos lesu Grist.

Ysbryd grymus, rho i mi
fod yn rymus fel tydi;
dysg im goncro lle mae dyn
yn rhy egwan wrtho'i hun;
yn dy obaith cynnal fi
drwy beryglon tân a lli.

**Ysbryd Sanctaidd, rho i mi
fod yn sanctaidd fel tydi;
ynof pob rhyw ras cryfha,
dysg im fyw i bethau da;
ac i'r Duw a'th roddodd di,
Ysbryd perffaith, canaf fi.**

Geiriau

Thomas Toke Lynch (1818-1871)

Cyfiethiad

Elfed (Howell Elvet Lewis, 1860-1953)

Cerddoriaeth | "Lucerna Laudoniae"

David Evans (1874-1948)

Parhawn ar ein traed tan y rhannwn y Tangnefedd

Offrwm

Deuwn i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliaeth.

Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.

Deuwn i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneiddio.

Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.

Gweddi Ewcharistaidd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Dyrchefwch eich calonnau.

Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

lawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

lawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

A esgynnodd i'w orsedd nefol ar dy ddeheulaw a thrwyddo yr wyt yn tywallt ar dy bobl yr Ysbryd Glân: Ysbryd doethineb a deall, Ysbryd cyngor a grym, Ysbryd gwybodaeth ac ofn yr Arglwydd. Dathlwn genhadaeth dy Eglwys pan unodd yr Ysbryd Glân amryw ieithoedd yn un llais i gyhoeddi un ffydd.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawr:

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd, Duw gallu a nerth, nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant. Hosanna yn y goruchaf.

✠ Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.

Cerddoriaeth
Cymun Gwynedd, Joe Cooper

Parhawn ar ein traed

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion inni, fel y bônt i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch, bwytwch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfwch o hwn bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf. ✠

Cyhoeddwn ddirgeledd y ffydd.

Bu farw Crist.

Atgyfododd Crist.

Daw Crist mewn gogoniant.

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deunw â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewyddu ni a phawb y gweddïwn trostynt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.

✠ **Amen.**

Parhawn ar ein traed

Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneled dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

Tangnefedd

Dy gorff atgyfodedig yn ein plith adwaenir yn nhorriad y bara; dy glwyfau gogoneddus, o ba le y llifodd gwaed, yn nodau dy gariad; dy eiriau inni o dangnefedd yn gryfach nag angau.

Tangnefedd y Bythol Dduw a fo gyda chwi bob amser.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn

Torri

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.
Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.
Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: dyro inni dy dangnefedd.

Cerddoriaeth

Cymun Gwynedd, Joe Cooper

Cymuno

✠ Haleliwia. Crist, ein Pasg, a aberthwyd drosom.

Felly, boed inni ddathlu'r ŵyl. Haleliwia.

Deuwn i Gymuno, gan ddilyn cyfarwyddyd y Stiwardiaid, o'r Afrlladen Sagrafennol ac, os y dymunwn, o'r Gwerthfawr Waed

Motét

Tyrd, Ysbryd Glân, Greawdwr mawr,
ymwêl â'th weision ar y llawr;
â'th ras cyflenwa oddi fry
galonnau'r rhai a greaist ti.

Fe'th elwir y Diddanydd, dawn
y Duw goruchaf, ffynnon lawn
pob byw, pob cariad, oll ar dân,
eneiniad byw yr Ysbryd Glân.

Trwot rho wybod Ysbryd Duw,
fod Duw yn Dad, y Mab yn Dduw,
gyda thi'n Drindod, Ysbyrd Glân,
Un Duw tragwyddol diwahân.

Gogniant fo i Dduw y Tad,
i'r Mab a ddaeth o farw yn fyw,
gogoniant i'r Diddanydd Rhad,
i'r Un sy Dri a'r Tri'n un Duw.

Geiriau

Rabanus Marus (c.780-856)

Geiriau

Ioan Huw Jones (1843-1910)

Cerddoriaeth

Simon Ogdon

Ar ôl i bawb Gymuno, safwn i ganu'r emyn



O Dduw ein galwad, clywsom dy addewid,
yn ein calonnau plennaist wraidd dy bwrpas;
ti a'n harweiniaist drwy yr oriau duaf,
O Dduw ein galwad.

Dduw ein hymgynnull, gydol y canrifoedd
maethaist ni wrth dy fwrdd â'th gariad graslon,
dŵr, gwin a bara, rhoddion drud dy aberth,
Dduw ein hymgynnull.

O Dduw ein moliant, mawl a chân ac offrwm,
pob un â'i iaith ac idiom ei ddiwylliant,
yn ein bywydau cynnau fflam sancteiddrwydd,
O Dduw ein moliant.

Dduw ein gwasgaru, yn ein byd o drallod,
danfon dy Ysbryd, lleda ein gorwelion;
yn un cymundeb ffurfia ni o'r newydd,
Dduw ein gwasgaru.

Geiriau
Meurig Llwyd Williams
Cerddoriaeth | "Pentecost 96"
James Griffiths

Parhawn ar ein traed

Bendithio'r piano newydd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Daw ein cymorth yn enw Duw.

Creawdwr nef a daear.

Gweddïwn.

Sanctaidd Dduw, y bu i'th was Moses orchymyn seinio'r cynn gwlad uwch offrwm yr ebyrth, y bu i blant Israel ewyllysio moliant i'th enw ag utgyrn a symbalau, yr un y cydseinia tyrfa llw'r nefol dy fawl, ac y'th glodforir gan symud mudan y galaethau; er mwyn i'n cerdd yn y deml hon deilyngu'th fawredd, † bendithia'r piano hwn, fel y bydd i'w gerddoriaeth gynnig inni gipolwg ar dy harddwch, a bod i ni yn rhagflas o'th nefolion lle na fydd na swm na distawrwydd, ond un beroriaeth gyfartal dy ogoniant; trwy'r hwn sy'n eistedd ar ddeulaw dy anrhydedd, hyd yn oed Iesu Grist ein Gwaredwr Dyrchafedig.

Amen.

Ymadael

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Bydded i Ysbryd y gwirionedd eich tywys i bob gwirionedd, a rhoi gras i chwi i dystiolaethu fod Iesu Grist yn Waredwr, ac chyhoeddi gair a gweithredoedd mawrion Duw; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Awn ymaith mewn tangnefedd. Haleliwia. Haleliwia.


Yn Enw Crist. Haleliwia. Haleliwia.

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael; yna eisteddwn neu ymadael

Offrymddarn ar yr organ

Komm, heiliger Geist, Dieterich Buxtehude (c.1638-1707)

Hysbys



Vivat Regina!

Dydd Sadwrn 11 Mehefin am 7.30pm

Ar ddydd Sadwrn 11 Mehefin am 7.30pm, bydd Côr y Gadeirlan yn cyflwyno cyngerdd sy'n cynnwys gweithiau "brenhinol" gan Handel, Parry, Walton a Mathias. Cafwyd blas o safon arbennig y canu yn y Gosber ar Gân mewn Diolchgarwch am y Jiwbilî nos lau dwethaf, a cheir mwy o ganu gwych yma. Mae manylion llawn ar dudalen 45 yn **Buchedd Bangor**, a cheir tocynnau ar y drws (oedolion £10; consesiynau £5; plant am ddim).

My Place

Dydd Sadwrn 18 Mehefin am 7.30pm

Cynhyrchiad dramatig gan gwmni theatr Riding Lights, yw "My Place" sy'n archwilio bywydau pedwar person ifanc heb le i alw yn gartref. Dilynnwn hwy drwy gartrefi gwahanol, drwy'r gyfundrefn gyfreithiol, a thrwy fyrlwm eu bywydau bregus. Mae teithiau rhyfeddol y plant bywiog, dyfeisgar hyn yn datblygu trwy stori a chân, gan ofyn inni ystyried pa le a allai fod i ni yn eu bywydau nhw. Ceir tocynnau arlein o ridinglights.org/my-place/ neu gan Naomi am £10.

Piano newydd

Rydym yn falch inni'n ddiweddar gael cyfle i brynu piano newydd am bris gostyngedig. Wedi ei wneuthur gan gwmni Bechstein yn 1878 a'i adfer dros yr wythnosau diwethaf gan gwmni lleol Pianos Cymru, bydd yn

cynnig offeryn o safon uchel ar gyfer ein datganiadau, ein haddoliad a'n digwyddiadau cerddorol ehangach. Ceir bendithio'r piano ar ddiwedd y gwasanaeth heddiw

Gwasanaeth Ordeinio

Dydd Sadwrn 25 Mehefin am 11am

Cynhelir y gwasanaeth ordeinio esgobaethol blynyddol yn y Gadeirlan ddiwedd y mis, ac mae croseo cynnes i bawb ymuno â Helen Franklin and Selwyn Griffiths i ddathlu pennod newydd yn eu gweinidogaeth.

Clas ar Zoom

Dydd Llun 6 Mehefin am 6.30pm

Mae'r dylunydd dodrefn o fri rhyngwladol, Luke Hughes, sy'n gweithio ar ddodrefn Corff yr Eglwys newydd ar gyfer y Gadeirlan, yn ymuno â ni i fyfyrio ar ei grefft aci sgwrsio am ein gynlluniau yn y Gadeirlan.

Datganiadau Paned

Pob dydd Iau

11.15am am 45 munud

Paned a chacen o 10.45am

9 Mehefin | Francesca Hook |

Soprano

Mae Francesca ar hyn o bryd yn fyfyrwraig MA mewn Cerddoriaeth ac Addysg ym Mhrifysgol Bangor ac wedi canu gyda Chôr y Gadeirlan. Bydd yn cyflwyno datganiad o weithiau o'r llwyfan a'r sgrîn.

16 Mehefin | Alice Caldwell |

Recorder Baroc

Mae Alice Caldwell yn un o Ysgolheigion y Gân y Gadeirlan. Yn ei datganiad, bydd yn perfformio ystod eang o gyfansoddiadau recorder Baróc gan gyfansoddwyr megis Handel, Telemann a Sammartini.

Yr wythnos

Dydd Llun | Monday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Mawrth | Tuesday

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Mercher | Wednesday

12.30pm Cymun | Eucharist

10.00pm Cwmplyn a Bendithiad y Sagrafen Fendigaid | Compline and Benediction of the Blessed Sacrament

Dydd Iau | Thursday

11.15am Datganiad Paned | Coffee-break Recital

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Gwener | Friday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Sadwrn | Saturday

2.30pm Cymun Bendigaid y Gaplaniaeth LHDTc+ | LGBTQ+ Chaplaincy Holy Eucharist

7.30pm Vivat Regina!

12 Mehefin | June | Sul y Drindod | Trinity Sunday

8.15am Holy Eucharist

9.15am Cymun Bendigaid ar Gân

Offeren Fer, Pett; Sanctaidd yw'r Arglwydd, Vogler; Fugue in E flat BWV 552ii, J. S. Bach

11.00am Choral Holy Eucharist

Missa Brevis, Eberlin; Hymn to the Trinity, Tchaikovsky; Prelude in E flat, BWV 552, J. S. Bach

3.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Smith; Short Service, Gibbons; Cherubic Hymn, Rachmaninov; Psalm Prelude 2.2, Howells

Ein gweddi

Ein cymuned Y Gaplaniaeth LHDTc+

Ein hesgobaeth Apwyntio Archddiacon Ynys Môn newydd

Yn glâf Glenys Dore; Mark Roberts; Troy Eagleston; Joy Levine, priest; Ann Elisabeth; Maureen Houlker; Dewi Jones; Param Cumaraswamy; Daviner Cumaraswamy; Fred Cuthbert; Margo Woodlock; Harold Fisher; Shirley Parry; Annie Parry

A fu farw'n ddiweddar Benedica Ward, lleian; Luis Rodriguez; Margaret Thomas; Katie Harris; Allen Webster; Martyn Lewis, offeiriad; Gennadios o Sassima, esgob

Gŵyl goffa Mervyn Price-Roberts, offeiriad

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwmo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff rhai o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook o gamera ym mhen dwyreiniol Corff yr Eglwys sy'n wynebu'r dwyrain, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cydabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaidd 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004 Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Gymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Mae delwedd y clawr yn fanylyn o eicon Groegaidd.

Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol

Deiniol Sant ym Mangor

The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Esgob ac Archesgob Cymru

Y Parchediacaf Andrew T. G. John

Bishop & Archbishop of Wales

The Most Revd Andrew T. G. John

Is-Ddeon | Sub-Dean

Canon Siôn B. E. Rhys Evans

sionrhys-evans@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fwyd Cynulleidfaoel

Canon for Congregational Life

Canon Tracy Jones

tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd | Director of Music

Joe Cooper

joe-cooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd | Organist

Martin Brown

martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinidog Teulu | Family Minister

Naomi Wood

naomiwood@eglwysyngnghymru.org.uk

Clerc y Cabidwl | Chapter Clerk

Robert Jones

robertjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cwstos | Custos

Simon Taylor

simontaylor@eglwysyngnghymru.org.uk

Trysorydd | Treasurer

Kelly Edwards

kellyedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinyddwr Liturgi | Liturgy Administrator

Sam Jones

samjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Rheolwr Prosiect Cadwraeth a Datblygu

Conservation & Development Project Manager

Simon Ogdon

simonogdon@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Secundus

Canon David Thomas Morris

davidmorris@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritus | Canon Emeritus

Canon Angela Williams

Aelodau o Goleg Offeiriadol y Gadeirlan

Members of the Cathedral's College of Priests

Y Parchg Ddr | The Revd Dr John Prysor-Jones,

y Tra Pharchg Athro | the Very Revd Prof.

Gordon McPhate, y Parchg | the Revd Peter

Kaye

Darlleneydd | Reader

Elma Taylor

Pensaer y Gadeirlan | Cathedral Architect

Simon Malam

Rhif elusen | Charity number 1158340

Cefnogaeth

Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.

1 I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganwch y cod QR isod.

2 Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswilt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio cerdyn neu ffôn.

Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.

